**Yr Athro Jane Williams, Prifysgol Abertawe – Y bwlch gweithredu rhwng polisi ac ymarfer hawliau plant mewn ysgolion cynradd yng Nghymru.**

Mae llywodraeth genedlaethol, awdurdod lleol neu ysgol – neu hyd yn oed pob un ohonyn nhw – yn mabwysiadu polisi o gydymffurfiaeth â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Beth sy'n newid wedyn mewn profiadau plant o fod yn yr ysgol?

Mae temtasiwn i ddweud: yn rhy aml, dim digon. Ond sut gallwn ni wybod? Yn ein hymchwil bresennol i'r ffordd y rhoddir hawliau cyfranogol plant ar waith yn ymarferol mewn ysgolion, rydyn ni'n archwilio'r bwlch rhwng datganiadau o ymlyniad wrth CCUHP yng nghyfreithiau a pholisïau Cymru a'r hyn sy'n digwydd ym mywydau beunyddiol plant mewn ysgolion yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio dysgu am raddfa a chymhlethdod y bwlch, a'r hyn a all helpu i'w bontio. Yng ngham cyntaf ein prosiect, caiff cyfreithiau a pholisïau Cymru eu dadansoddi i ddarganfod sut maen nhw'n ymdrin ag athrawon yn gyffredinol o ran hawliau cyfranogol plant. Ochr yn ochr â hyn, cesglir tystiolaeth empirig o gynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus. Drwy hyn, rydyn ni'n gobeithio asesu sut caiff athrawon eu cefnogi ar hyn o bryd i gyflawni'r disgwyliadau sy'n rhan gynhenid o'r fframweithiau cyfreithiol a pholisi ar hawliau plant.

Mae ymchwilwyr ym meysydd gweinyddu, rheoli a'r gwyddorau cymdeithasol ehangach yn disgrifio'r pellter rhwng bwriad polisïau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu rhoi ar waith fel 'y bwlch gweithredu'. Mor bell yn ôl â 1978, ysgrifennodd Lewis Gunn, Athro Gweinyddu ym Mhrifysgol Strathclyde, erthygl a nododd ddeg rhwystr cyffredin i roi polisïau ar waith yn effeithiol. Canolbwyntiodd ar bolisïau iechyd, a chanfu'r rhwystrau cyffredin canlynol: cyfyngiadau amser a bennwyd yn allanol; diffyg amser ac adnoddau; diffyg argaeledd adnoddau; polisïau nad oeddent yn seiliedig ar ddamcaniaeth ddilys o ran achos ac effaith; perthynas anuniongyrchol rhwng achos ac effaith gyda sawl cysylltiad yn y canol; sawl perthynas ddibynnol; dealltwriaeth wael o'r amcanion neu anghytundeb arnyn nhw; tasgau na chawson nhw eu nodi'n llawn yn y drefn gywir; cyfathrebu a chydlynu amherffaith; a diffyg awdurdod i fynnu neu gael cydymffurfiaeth berffaith.

Ers hynny, trafodwyd y broblem o roi polisïau ar waith yng nghyd-destun 'gwyddoniaeth cymhlethdod' (er enghraifft, Braithwaite et al. 2018), gan gydnabod bod sawl ffactor newidiol ar waith, pwysigrwydd arferion cymdeithasol a phriodweddau deinamig systemau, sydd i gyd yn cael effeithiau ar natur a graddfa'r bwlch gweithredu. Serch hynny, nododd Hudson et al. (2019) bedwar

ffactor allweddol sy'n gyfrifol am fethiannau i roi polisïau ar waith: disgwyliadau gorobeithiol; trefniadau llywodraethu ar wasgar; llunio polisïau cydweithredol mewn modd annigonol; a mympwyon cylchoedd gwleidyddol. Aeth yr un tîm ymchwil ymlaen i brofi model o gymorth gweithredu polisïau, gan gael canlyniadau cadarnhaol wrth arloesi polisi penodol ym maes gofal cymdeithasol. (Hunter et al. 2020)

Cynhelir ein hymchwil yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd i Gymru, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i arweinwyr ysgolion sicrhau bod staff yn gwybod am CCUHP, yn ogystal â darparu addysg hawliau dynol fel thema drawsbynciol, gan groesawu addysg 'am', 'drwy' ac 'ar gyfer' hawliau dynol. (Llywodraeth Cymru, 2021).

Canfu Yan a He (2012), wrth ymchwilio i'r broses o ddiwygio cwricwlwm mewn lle ac amser gwahanol, fod tri amod ar gyfer pontio'r bwlch gweithredu: nodau tymor hir, athrawon yn gwneud penderfyniadau cyd-destunol, a meithrin a datblygu athrawon. Mae'r amodau hyn yn adleisio argraffiadau cynnar ein hymchwil ein hunain.  Yng Nghymru, mae'r cwricwlwm a gyflwynwyd gan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn pennu nodau tymor hir ar ffurf pedwar diben y cwricwlwm:   galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes; galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu i fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith; galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd; a galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu i fod yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas. Mae'n rhoi pwyslais newydd ar rôl arweinwyr ysgolion ac addysgwyr wrth ymdrin â chwricwlwm lleol a fydd, yn eu cyd-destun eu hunain, yn gwasanaethu'r nodau tymor hir hyn yn y ffordd orau ac yn ymgorffori elfennau gorfodol eraill y fframwaith, gan gynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad a'r tri sgìl trawsgwricwlaidd.

Mae cam cyntaf ein prosiect yn canolbwyntio ar y trydydd amod: 'meithrin a datblygu athrawon': yn benodol, sut mae eu hyfforddiant proffesiynol cychwynnol a pharhaus yn eu galluogi i gyflawni'r ymrwymiad i ymgorffori addysg 'am', 'drwy' ac 'ar gyfer' hawliau dynol fel thema drawsbynciol yn y cwricwlwm. Mae hyrwyddo gwybodaeth am y CCUHP a dealltwriaeth ohono'n un o lawer o flociau adeiladu hanfodol y mae eu hangen i feithrin a datblygu addysgwyr sy'n gallu cynllunio, darparu a gwerthuso addysg hawliau dynol yn hyderus. Rydyn ni'n gobeithio y bydd ein gwaith yn helpu i nodi beth arall y mae ei angen a sut caiff ei gyflenwi neu sut dylid ei gyflenwi'n ymarferol.

**Cyfeiriadau**


Braithwaite, J., Churruca, K., Long, J.C. et al. When complexity science meets implementation science: a theoretical and empirical analysis of systems change. BMC Med 16, 63 (2018). https://doi.org/10.1186/s12916-018-1057-z

Gunn LA (1978). "Why is implantation so difficult?" Management Services in Government, 33: 169-76. Ailgyhoeddwyd yn Hunter DJ (2003). Public Health Policy. Caergrawnt: Polity Press.

Hudson, B., Hunter, D. a Peckham, S., 'Policy failure and the policy-implementation gap: can policy support programs help?' *POLICY DESIGN AND PRACTICE* 2019, CYFROL 2, RHIF 1, 1–14https://doi.org/10.1080/25741292.2018.1540378

Hunter, DJ, et al. 2020. 'Do Policy Implementation Support Programmes Work? The Case of the Care Act 2014'. *Journal of Long-Term Care*, (2020), tud. 196–207. DOI: https://doi.org/10.31389/jltc.422

Llywodraeth Cymru 2021. *Cwricwlwm i Gymru.* Ar gael yn https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru .

Yan, C. a He, C. 2012. 'Bridging the implementation gap: An ethnographic study of English teachers' implementation of the curriculum reform in China' March 2012 *Ethnography and Education* 7(1):1-19 DOI: 10.1080/17457823.2012.661585